OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 558 (Cy. 80)

# GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB, CYMRU

## Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Dangosyddion Perfformiad) (Cymru) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *21 Chwefror 2011* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *1 Mawrth 2011* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 8(1) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009(**1**), ac ar ôl ymgynghori â'r personau hynny y mae'n ofynnol arnynt, gan adran 8(3) o'r Mesur hwnnw, i ymgynghori â hwy, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

### Enwi, cychwyn, a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Dangosyddion Perfformiad) (Cymru) 2011.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran awdurdodau tân ac achub yng Nghymru, a daw i rym ar 1 Ebrill 2011.

### Dangosyddion perfformiad

**2.** Mae'r dangosyddion perfformiad y bydd perfformiad pob awdurdod tân ac achub yng Nghymru'n cael ei fesur yn eu herbyn wrth iddo ymarfer ei swyddogaethau yn cael eu pennu drwy hyn yn yr Atodlen.

*Carl Sargeant*
Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

21 Chwefror 2011

(**1**) 2009 mccc 2.

## YR ATODLEN

Erthygl 2

Lleihau Risg a Diogelwch Cymunedol

| *Cyfeirnod* | *Dangosydd* |
| --- | --- |
| FRS/RRC/S/001 | (i) Cyfanswm y tanau yr aethpwyd atynt, fesul 10,000 o'r boblogaeth;<br>(ii) Cyfanswm y prif danau yr aethpwyd atynt, fesul 10,000 o'r boblogaeth;<br>(iii) Cyfanswm y tanau yr aethpwyd atynt a oedd wedi eu cynnau drwy ddamwain mewn anheddau, fesul 10,000 o anheddau;<br>(iv) Cyfanswm y tanau yr aethpwyd atynt a oedd wedi eu cynnau'n fwriadol, fesul 10,000 o'r boblogaeth. |
| FRS/RRC/S/002 | Nifer y:<br>(i) Marwolaethau a achoswyd gan danau, fesul 100,000 o'r boblogaeth;<br>(ii) Marwolaethau a achoswyd gan danau a oedd wedi eu cynnau drwy ddamwain, fesul 100,000 o'r boblogaeth;<br>(iii) Marwolaethau a achoswyd gan danau a oedd wedi eu cynnau'n fwriadol, fesul 100,000 o'r boblogaeth;<br>(iv) Anafiadau (ac eithrio archwiliadau rhagofalus) a ddeilliodd o danau, fesul 100,000 o'r boblogaeth;<br>(v) Anafiadau (ac eithrio archwiliadau rhagofalus) a ddeilliodd o danau a oedd wedi eu cynnau drwy ddamwain, fesul 100,000 o'r boblogaeth;<br>(vi) Anafiadau (ac eithrio archwiliadau rhagofalus) a ddeilliodd o danau a oedd wedi eu cynnau'n fwriadol, fesul 100,000 o'r boblogaeth. |
| FRS/RRC/S/003 | Cyfanswm y tanau mewn mangreoedd annomestig, fesul 1,000 o fangreoedd annomestig. |

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu, o ran Cymru, ddangosyddion perfformiad y bydd perfformiad awdurdodau tân ac achub, wrth iddynt ymarfer eu swyddogaethau, yn cael eu mesur yn eu herbyn o 1 Ebrill 2011 ymlaen.

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn pennu bod y dangosyddion perfformiad wedi eu nodi yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Mae asesiad effaith reoleiddiol wedi ei baratoi mewn cysylltiad â'r Gorchymyn hwn, a gellir cael copi gan Y Gangen Gwasanaethau Tân ac Achub, Yr Is-adran Diogelwch Cymunedol, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Rhydycar, Merthyr Tudful, CF48 1UZ (ffôn 01685 729221).